

Diweddariadau'r wythnos o CGGC

30 MEDI 2019

Helo, a chroeso i gylchlythyr yr wythnos hon.

Dim ond 2 ddiwrnod sydd i fynd nes i ni orffen derbyn enwebiadau ar gyfer [Gwobrau Elusennau Cymru](#)! Gwnewch yn siŵr nad ydych chi'n colli cyfle i godi proffil y sector gwirfoddol, fel y gallwn ni gyd wneud mwy o wahaniaeth gyda'n gilydd! Ydych chi am ymuno gyda ni? Enwebwch cyn 5ydd dydd Mercher ar [gwobrauelusennau.cymru](#)

Os na allwch ariannu gorbenion eich prosiect yn iawn, yna gall hyn arwain at ei fethiant yn y pen draw. Mae gorbenion yn cynnwys rhent, cyfleustodau, ffioedd cyfreithiol, ac unrhyw gostau eraill nad ydych wedi meddwl amdanynt! Bydd ein hyfforddiant [Adfer Costau Llawn](#) yn y Rhyl yn eich helpu i ddysgu am gynnwys yr holl orbenion yn eich cyllideb wrth wneud cynnig am arian prosiect.

Diolch am ddarllen, welwn ni chi'r wythnos nesaf.

Cyfle olaf i enwebu

Y dyddiad cau i enwebu eich elusennau, grwpiau cymunedol, mentrau cymdeithasol a gwirfoddolwyr ar gyfer Gwobr Elusennau Cymru yw 2 Hydref (dydd Mercher hwn!)

[Darllen mwy](#)

Cyllid diweddaraf

Pot arbennig o £7.5 miliwn i ddathlu penblwydd y Loteri Genedlaethol yn 25ain

Mae Cronfa Genedlaethol y Loteri Genedlaethol wedi datbgelu by bydd yn creu pot arbennig o £7.5 miliwn i nodi penblwydd yr Loteri Genedlaethol yn 25ain.

[Darllen mwy](#)

Road Safety Trust – Rhaglen Grantiau Bach

Mae rhwng £10,000 a £30,000 ar gael i brosiectau wedi'u hanelu at wella diogelwch y ffordd ar lefel leol.

[Darllen mwy](#)

Cronfa Parodrwydd Busnes ar gyfer Brexit Heb Gytundeb

Gall sefydliadau busnes a chyrff diwydiannol ymgeisio am grant gan y Gronfa Parodrwydd Busnes i helpu busnesau'r DU baratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb.

[Darllen mwy](#)

Cronfa Her Elusennau Bach (SCCF)

Mae grantiau prosiect SCCF o hyd at £50,000 ar gael am hyd at ddwy flynedd.

[Darllen mwy](#)

Côd Ymarfer Codi Arian Newydd

Mae'r Rheoleiddiwr Codi Arian yn annog mudiadau i wneud paratodau terfynol ar gyfer gweithredu'r côd newydd.

[Darllen mwy](#)

Volunteering

Beth sy'n gwneud disgrifiad da o rôl gwirfoddolwr?

Gall recriwtio'r gwirfoddolwr cywir ar gyfer rôl fod yn heriol felly mae'n bwysig ofnadwy i greu disgrifiad rôl dda.

[Darllen mwy](#)

Adolygu adnoddau mewn Gofal Cymdeithasol a Iechyd

A fydddech yn gallu adolygu adnoddau sydd wedi cael eu datblygu i gefnogi cymhwysterau newydd mewn Gofal Cymdeithasol a Iechyd yng Nghymru?

[Darllen mwy](#)

A allech chi ennill Gwobr Elusennau Cymru?

Nid ar gyfer elusennau yn unig y mae Gwobrau Elusennau Cymru - mae pob mudiad gwirfoddol gan gynnwys mentrau cymdeithasol a grwpiau cymunedol yn gymwys! Os ydych chi'n falch o waith eich sefydliad dros y flwyddyn ddiwethaf beth am enwebu'ch hun - ond brysiwch, y dyddiad cau yw 2 Hydref.

[Darllen mwy](#)

Newyddion sector gwirfoddol

Pa effaith mae CGGC yn ei chael?

Sut mae CGGC yn helpu eich sefydliad chi gyda gwaith rheoli gwirfoddolwyr, cyllido, llywodraethu a dylanwadu?

[Cymerwch yr arolwg](#)

Angen hyfforddwr ar gyfer Catalydd Cymru: Treftadaeth Gwydn

Mae CGGC yn edrych i weithio gydag ymgynghorwyr, ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol eraill yn y trydydd sector i hyfforddi sefydliadau treftadaeth elusennol yng Nghymru i ddod yn fwy gwydn.

[Darllen mwy](#)

Gwiriwr ansawdd ar-lein newydd i fudiadau gwirfoddol

Mae Elusen Ddibynadwy wedi lansio teclyn ar-lein newydd am ddim i helpu elusennau i wneud gwiriad iechyd sylfaenol ar sut mae ei mudiad yn perfformio, gan nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu.

[Darllen mwy](#)

Hyfforddiant a digwyddiadau

Cyflwyniad i Adennill Costau Llawn

Deall a chyfrifo gwir gostau rhedeg mudiad.

24 Hydref 2019, Y Rhyl

[Darllen mwy](#)

Gweminar: Cefnogaeth Ystadegol i'r Trydydd Sector

Dewch i wybod mwy am yr Ystadegwyr i'r Prosiect Cymdeithasol ac i wybod sut y gall gefnogi mudiadau trydydd sector yng Nghymru.

09 Hydref 2019, 10am - 11am

[Darllen mwy](#)

Cyflwyniad i Elusen Ddibynadwy

Dewch i wybod mwy am y broses hunanasesu Elusen Ddibynadwy a'r marc ansawdd yn ein gweithdy cyflwyniadol am ddim.

23 Hydref 2019, Caerdydd

[Darllen mwy](#)

Polisi a prosiectau

Pwyllgor i ystyried diwygio'r Cynulliad

Bydd Pwyllgor newydd yn archwilio cynigion i ddiwygio'r Cynulliad Cenedlaethol.

[Darllen mwy](#)